

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgarwch dros y flwyddyn fwrdeistrefol a ddaeth i ben ddiwedd mis Mawrth 2018. Caiff ei ddarparu er gwybodaeth i bob etholwr ac nid i unrhyw bwrpas arall.

Cyfarwyddiadau ar gyfer llenwi

Mae croeso i Gynghorwyr gynnwys gymaint neu cyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran, fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (fel uchafswm).

Y Cynghorydd: Robert Walsh

Plaid: Democratiaid

Rhyddfrydol Cymru Ward: Llai

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau:

Rwyf yn aelod o'r Pwyllgorau canlynol (ffigyrau presenoldeb wedi'u darparu gan CBSW):

1. Cadeirydd - Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes
2. Cadeirydd - Cydbwyllgor Ymgynghori (Athrawon)
3. Is-Gadeirydd - Fforwm Ysgolion
4. Arweinydd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol
5. Pwyllgor Cynllunio
6. Pwyllgor Archwilio
7. Cyngor Llawn
8. Ymweliadau Rota i Banel Cartrefi Plant
9. Panel Cludiant i'r Ysgol (Apeliadau Ffyrdd Peryglus)
10. Pwyllgor Anghydfod

Rwyf yn aelod o'r Pwyllgorau allanol canlynol (ffigyrau presenoldeb wedi'u darparu gan y Cynghorydd):

1. Cyngor Cymuned Llai (Ward Parc Llai)
2. Cadeirydd y Llywodraethwyr – Ysgol Uwchradd Darland
3. Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Llai
4. Is-Gadeirydd Pwyllgor Cyfeillion Dyfroedd Alun
5. Pwyllgor Rheoli Canolfan Adnoddau Parc Llai

Adran 2: Gweithgaredd yn fy Etholaeth:

1. Cynhyrchu newyddlen chwarterol "Llay Focus" a gaiff ei hanfon at bob un o'n trigolion yn rhoi gwybod iddynt am y newyddion diweddaraf.
2. Gweithio yn ddyddiol yn helpu trigolion gydag amrywiaeth o faterion, yn bennaf yn ymwneud â thai a'r amgylchedd.
3. Dweud fy nweud yn gyhoeddus yn erbyn y penderfyniad a wnaed gan Brif Weinidog Cymru/yr Arolygiaeth Gynllunio i roi caniatâd cynllunio i ddatblygiad tai mawr ar Ffordd Gresffordd.
4. Ymgrychu'n gyhoeddus yn erbyn y gwasanaeth bws annigonol i drigolion mewn rhai rhannau o Llai.
5. Cwblhau archwiliadau ar oleuadau traffig sydd wedi torri yn y ward a rhoi gwybod am y rhain i'r adran.
6. Annog trigolion i gyflwyno eu barn ynghylch ceisiadau cynllunio yn Llai, yn

enwedig y rheiny sy'n cynllunio datblygu tai newydd.

7. Annog trigolion i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad Penderfyniadau Anodd i'w galluogi nhw i gael dweud eu dweud.
8. Perthynas waith dda â'm cyd aelod lleol, y Cynghorydd Bryan Apsley yn ogystal â'r rhan fwyaf o aelodau yn Cyngor Cymuned Llai, sy'n creu ethos tîm da yn Llai.
9. Dweud fy nweud yn erbyn y penderfyniad o godi ffi parcio ym Mharc Gwledig Dyfroedd Alun o ganlyniad i bryderon am yr effaith y byddai'n ei gael ar y gymuned ehangach.
10. Cyfarfod mor aml â phosibl â Rheolwr Swyddfa Ystâd Gwersyllt, Cydlynedd Strydwedd Llai a hefyd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol i drafod pryderon y gymuned.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig:

1. Trefnu casglu sbwriel ochr yn ochr â Cadwch Gymru'n Daclus yng Nghoedwig Nant y Gaer.
2. Ochr yn ochr â'm cydweithwyr ar Gyngor Cymunedol Llai, rydym wedi llwyddo i brynu hen giosg ffôn coch cymunedol gan BT sydd wedi'i leoli yng Nghroeshowell.
Y cynllun yw ymgynghori â'r gymuned ynglŷn ag ar gyfer beth y bydd yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer a ble i'w leoli yn y dyfodol.
3. Cynnal cyfarfod cyhoeddus â'r heddlu i alluogi trigolion i rannu eu pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned.
4. Cynnal 2 gyfarfod cyhoeddus am Gynllun Datblygu Lleol i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn Llai i geisio arwain trigolion trwy'r broses ymgynghori yn ogystal â gwrando ar eu prif bryderon.

Adran 4: Dysgu a Datblygu a Gwblhawyd

1. Mynychu sesiynau hyfforddi amrywiol a ddarperir gan y cyngor yn ogystal â gweithdai ar bynciau amrywiol trwy gydol y flwyddyn galendr.
2. Mynychu sesiynau hyfforddi arbennig a ddarparwyd yn benodol ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Archwilio.

Sesiwn 5: Gweithgareddau a Materion Eraill:

1. Cadeirydd – Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes sydd wedi ymdrin â materion megis "Safonau Ysgolion", "Cyllideb Addysg neu 2018/19" ac wedi cwestiynu GwE ar 2 achlysur.
2. Cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Addysg yn ymwneud ag eitemau rhaglen nesaf y pwyllgor.
3. Helpu i ffurfio a Chadeirio'r "Grŵp Gwella Ysgolion" sy'n mynd i ysgolion i graffu gwaith a wneir gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Corff Llywodraethu.
4. Fel Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Uwchradd Darland, rwyf yn goruchwyllo nodau strategol yr ysgol ac yn cyfarfod â'r pennaeth yn rheolaidd.
5. Cytunais ynghyd â Chorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Darland, i adael i'r pennaeth fynd ar secondiad i Ysgol Uwchradd Rhosnesni am 5 mis i helpu â gwelliannau yno.
6. Chwarae rhan ymarferol ym mhob pwyllgor arall yr wyf yn aelod ohonynt e.e. Cynllunio.
7. Mynychu pwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol o bryd i'w gilydd a gofyn cwestiynau i'r Aelodau Arweiniol.
8. Mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu (nad wyf yn aelod ohonynt) i gymryd rhan mewn eitemau pynciol.
9. Mynychu cyfarfodydd Panel Polisi Cynllunio yn mynegi barn/pryderon am y Cynllun Datblygu Lleol.
10. Ymweld â chartref plant Rhodfa Tapley fel rhan o'r rhaglen rota ymweld yn cynnwys mynychu eu Parti Calan Gaeaf.
11. Mynychu seremoni ddinasyddiaeth ar gyfer trigolion Llai yn Neuadd y Dref.

Llofnod y Cynghorydd: *R. O. Walsh*
29/07/2018

Dyddiad: